# Cynllun Iaith Gymraeg

# Adroddiad Cynnydd Ebrill 2024 – Mawrth 2025

**Cyflwyniad**

Pwrpas yr adroddiad hwn yw amlinellu'r cynnydd sydd wedi'i wneud wrth ddarparu ein gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg ystod y 12 mis diwethaf, yn unol â'n Cynllun Iaith Gymraeg (CIG).

**Cefndir**

Cymeradwywyd ein CIG gan Gomisiynydd y Gymraeg (CYG) ar y 19eg Chwefror 2014. Nid oes unrhyw newidiadau sylweddol wedi bod i'n Cynllun ers ei gyflwyno.

Yn 2015, ymgynghorodd CYG ar gyflwyno Safonau Iaith Gymraeg ar gyfer sefydliadau yn gweithredu yng Nghymru. Hyd yn hyn, mae'r Safonau wedi'u cyflwyno ar gyfer sefydliadau'r sector cyhoeddus. Mae Cymdeithasau Tai yn parhau i aros iddynt gael eu cyflwyno. Felly, mae ein Cynllun presennol, sy'n seiliedig ar Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993, dal ar waith.

Er mwyn paratoi ar gyfer cyflwyno'r Safonau, bu i ni:

- Gymryd rhan yn yr ymchwiliad Safonau Iaith Gymraeg gan CYG yn ystod Haf 2015.
- Cymryd rhan mewn ymgynghoriad dilynol yn ystod hydref 2017 ar Fesur yr Iaith Gymraeg.
- Defnyddio gwasanaeth cyfieithu gan Gymdeithas Dai arall ar gyfer ein gofynion cyfieithu ysgrifenedig.

**Monitro cydymffurfiaeth**

Caiff monitro parhaus y Cynllun ei gynnal ac mae'r adroddiad hwn yn rhan o'r monitro a gafodd ei adrodd i'n Bwrdd ar y 24ain o Ebrill 2025 i'w gymeradwyo.

Mae ein Cynllun Gweithredu ar gyfer y 12 mis nesaf, sy'n seiliedig ar ein CIG presennol, wedi'i baratoi ac wedi'i gynnwys yn atodiad 1.

## Crynodeb Weithredol

**Ers derbyn cymeradwyaeth Comisiynydd y Gymraeg i Gynllun Iaith Gymraeg Tai Tarian ym mis Chwefror 2014, mae gwaith wedi mynd rhagddo i:**

- **rhoi'r gweithrediadau yn y cynllun gweithredu gwreiddiol ar waith a chynlluniau gweithredu adolygedig wedi hynny.**
- **cefnogi staff a'n haelodau i ddysgu Cymraeg.**
- **casglu gwybodaeth am ddewis iaith Gymraeg gan ein cwsmeriaid; a**
- **diweddaru ein hunain am newidiadau sydd ar droed i ddeddfwriaeth iaith Gymraeg.**

**O'r 19 gweithred yn y cynllun gweithredu adolygedig ar gyfer 2024/25:**

- **mae'r mwyafrif wedi gweld cynnydd a byddant yn parhau i gael eu monitro wrth symud ymlaen.**

## 1. Monitro'r lefel o alw am y Gymraeg gan ein defnyddwyr gwasanaeth ac adlewyrchu hyn yn ein proses recriwtio os oes gofyn

***Diweddariad o gynnydd***

- Caiff pob swydd ei adolygu yn unigol gan y rheolwr perthnasol fel mae'r angen yn codi. Ar hyn o bryd, does dim swyddi wedi'u nodi fel bod hi'n hanfodol siarad Cymraeg ar eu cyfer. Mae hyn yn deillio oherwydd y lefel isel o alw am y Gymraeg yn yr ardaloedd lle rydym yn gweithredu.

***Camau nesaf:***

Byddwn yn parhau i fonitro'r weithred hon.

Cynllun gweithredu 2025/26 – gweithred A.

## 2. Monitro pa mor rhugl yw staff yn y Gymraeg a gweithredu os oes angen

***Diweddariad o gynnydd***

- Rydym yn gofyn i bob aelod o staff ddarparu manylion pa mor rhugl ydynt yn y Gymraeg pan maent yn cychwyn eu cyflogaeth gyda Tai Tarian.
- Gwybodaeth gyfredol a gaiff ei ddal ar ba mor rhugl yw staff yn yr Iaith Gymraeg:

| **Gweithwyr Tai Tarian - yr iaith Gymraeg** | |
|---|---|
| Gallu siarad ac ysgrifennu Cymraeg yn rhugl | 22 |
| Siaradwr Cymraeg rhugl | 5 |
| Gallu siarad ac ysgrifennu Cymraeg yn eithaf rhugl | 20 |
| Gallu siarad Cymraeg yn eithaf rhugl | 7 |
| Siaradwr newydd | 45 |
| Ychydig neu dim gwybodaeth | 485 |
| Heb ddatgelu | 16 |
| **Cyfanswm** | **600** |

***Camau nesaf:***

Byddwn yn parhau i fonitro'r weithred hon.

Cynllun gweithredu 2025/26 – gweithred B.

| 3. Cynnal ymarferiad i hysbysu staff am bwysigrwydd darparu a diweddaru eu data iaith Gymraeg | |
|---|---|
| ***Diweddariad o gynnydd***<br>• **Mae'r cwestiwn yma yn cael ei ofyn i bob aelod newydd o staff wrth iddynt gael eu penodi. Mae ein system AD yn dal y data am siaradwyr Cymraeg; gall staff ddiweddaru eu sgiliau iaith Gymraeg o dan yr adran cymwysterau personol ar y porth hunanwasanaeth staff.** | ***Camau nesaf:***<br>Byddwn yn parhau i fonitro'r weithred hon.<br>Cynllun gweithredu 2025/26 – gweithred C. |

| 4. Cynnal a diweddaru'r cyfeiriadur mewnol o staff sy'n siaradwyr Cymraeg rhugl neu rai sy'n gallu siarad ac ysgrifennu Cymraeg | |
|---|---|
| ***Diweddariad o gynnydd***<br>• Mae cyfeiriadur mewnol o staff sy'n siaradwyr Cymraeg rhugl ar gael ar ein mewnrwyd. | ***Camau nesaf:***<br>Byddwn yn parhau i fonitro'r weithred hon.<br>Cynllun gweithredu 2025/26 – gweithred D. |

| 5. Parhau i godi ymwybyddiaeth am y Cynllun Iaith Gymraeg ymhlith staff a chwsmeriaid drwy'r dull mwyaf priodol | |
|---|---|
| ***Diweddariad o gynnydd***<br>• Dros y 12 mis diwethaf, mae ein Cynllun Iaith Gymraeg wedi parhau i gael ei hybu i gwsmeriaid ar ein gwefan ac i'n staff dros ein mewnrwyd. | ***Camau nesaf:***<br>Byddwn yn parhau i fonitro'r weithred hon.<br>Cynllun gweithredu 2025/26 – gweithred E. |

| 6. Parhau i gasglu a chofnodi dewisiadau iaith ar gyfer cyfathrebu fel rhan o gasglu data Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant deiliaid contract | |
|---|---|
| *Diweddariad o gynnydd*<br>• **Mae ein data cyfredol yn dangos o ran tenantiaid presennol bod:** | ***Camau nesaf:***<br>Byddwn yn parhau i fonitro'r weithred hon.<br>Cynllun gweithredu 2025/26 – gweithred F. |

| | |
|---|---|
| 28 o'r 2,480 (1.13%) o ddeiliaid contract a gwestiynwyd yn dymuno i ni siarad gyda nhw yn Gymraeg.<br>bod 7 o'r 2,491 (0.28%) o ddeiliaid contract a gwestiynwyd yn dymuno i ni ysgrifennu atynt yn Gymraeg.<br>• **Mae ein data cyfredol yn dangos o ran ymgeiswyr byw bod:**<br>19 o'r 5046 (0.38%) o ymgeiswyr a gwestiynwyd yn dymuno i ni siarad gyda nhw yn Gymraeg.<br>• 12 o'r 5046 (0.24%) o ymgeiswyr a gwestiynwyd yn dymuno i ni ysgrifennu atynt yn Gymraeg. | |

| 7. Dadansoddi data dewis iaith wrth gyfathrebu sydd wedi'i gasglu ac ystyried ei effaith ar gyflawni gwasanaeth | |
|---|---|
| ***Diweddariad o gynnydd***<br>• Rydym wedi ystyried dewis iaith wrth gyfathrebu wrth edrych ar ddarparu gwasanaeth. Er enghraifft, rydym wedi dynodi Swyddog Cyswllt Tenantiaid sy'n siarad Cymraeg yn yr ardal lle mae'r rhan fwyaf o'r deiliaid contract sydd wedi nodi eu bod yn dymuno i ni siarad gyda nhw yn Gymraeg yn byw.<br>• O ganlyniad i'r data, rydym wedi cyflwyno ap cyfieithu fideo 'Language Line' sy'n rhoi'r opsiwn i gwsmeriaid gael mynediad yn syth at siaradwr Cymraeg. Gallwn ddarparu'r gwasanaeth yn eu dewis iaith os nad oes siaradwr Cymraeg ar gael drwy wneud hyn. | ***Camau nesaf:***<br>Byddwn yn parhau i fonitro'r weithred hon.<br><br>Cynllun gweithredu 2025/26 – gweithred G. |

| 8. Parhau i fonitro'r lefelau o alw am iaith Gymraeg gan ein deiliaid contract a phenderfynu ar sut i ymdrin â hyn er mwyn diwallu'r galw. | |
|---|---|
| ***Diweddariad o gynnydd***<br>• Mae'r lefel o alw am wasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg wedi parhau yn isel. Nid ydym wedi derbyn unrhyw geisiadau i ddarparu gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg yn ystod y 12 mis diwethaf.<br>• Fel rhan o'r prosiect Safonau'r Gymraeg, byddwn yn lansio arolwg i bob tenant a staff i ofyn eu barn am wasanaethau Iaith Gymraeg. | ***Camau nesaf:***<br>Byddwn yn parhau i fonitro'r weithred hon.<br>Cynllun gweithredu 2025/26 – gweithred H. |

| 9. Monitro defnydd ac ansawdd y broses gyfieithu i Gymraeg | |
|---|---|
| ***Diweddariad o gynnydd***<br>• Cymdeithas Dai Adra sy'n darparu gwasanaethau cyfieithu ysgrifenedig i ni. Does dim problemau wedi codi mewn perthynas ag ansawdd y gwasanaeth. | ***Camau nesaf:***<br>Byddwn yn parhau i fonitro'r weithred hon.<br>Cynllun gweithredu 2025/26 - gweithred I. |

| 10. Diweddaru myfyrwyr iaith Gymraeg am gyfleoedd yn lleol i ymarfer yr hyn y maent yn ei ddysgu | |
|---|---|
| ***Diweddariad o gynnydd***<br>• Ym mis Medi 2024, cafodd cyrsiau dysgu Cymraeg wyneb yn wyneb ar gyfer staff a deiliaid contract eu cynnig.<br>• Cafodd gwybodaeth i fynegi diddordeb yn y cwrs dysgu Cymraeg ei rannu gyda staff drwy e-bost, ar ein mewnrwyd staff, 'Our Place' a 'The Adviser'.<br>• Cafodd gwybodaeth i ddeiliaid contract ei rannu drwy ein cylchlythyr 'Cartref', gwefan Tai Tarian a phostiadau ar y cyfryngau cymdeithasol. | ***Camau nesaf:***<br>Rydym yn edrych ar opsiynau ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf drwy siarad gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg i edrych ar ddulliau gwahanol ar gyfer dysgu.<br>Bydd hyn yn cael ei gefnogi gan gynllun cyfathrebu i sicrhau bod holl ddysgwyr yn gwybod am y cyfleoedd sydd ar gael.<br>Cynllun gweithredu 2025/26 - gweithred J. |

| 11. Parhau i gynnig hyfforddiant iaith Gymraeg i staff | |
|---|---|
| ***Diweddariad o gynnydd***<br>• Ym mis Medi 2023 bu i ni ail gyflwyno cwrs dysgu Cymraeg wyneb yn wyneb ar gyfer dechreuwyr  i staff a deiliaid contract. Cafodd hyn ei ailadrodd ar gyfer 2024, fodd bynnag, dim ond pedwar aelod o staff a aeth i'r hyfforddiant ac oherwydd y niferoedd isel, daeth y darparwr hyfforddiant a’r hyfforddiant i ben. | ***Camau nesaf:***<br>Byddwn yn gofyn am gyngor y Ganolfan Dysgu Cymraeg wrth symud ymlaen, i ddeall pa gyfleoedd dysgu eraill y gallwn eu darparu.<br>Cynllun gweithredu 2025/26 – gweithred K. |

| 12. Gwerthuso darpariaeth hyfforddiant iaith Gymraeg presennol gydag aelodau ar ôl i’r cwrs presennol ddod i ben ac yna penderfynu sut i symud ymlaen. | |
|---|---|
| ***Diweddariad o gynnydd***<br>• Cafodd y cwrs presennol a gychwynnodd ym mis Medi 2024 ei ganslo gan y darparwr oherwydd nad oedd llawer yn mynychu. | ***Camau nesaf:***<br>Byddwn yn gofyn am gyngor y Ganolfan Dysgu Cymraeg wrth symud ymlaen, i ddeall pa gyfleoedd dysgu eraill y gallwn eu darparu.<br>Cynllun gweithredu 2025/26 – gweithred L. |

| 13. Parhau i ddangos datganiadau iaith Gymraeg yn ein prif dderbynfa | |
|---|---|
| ***Diweddariad o gynnydd***<br>• Mae arwydd yn nodi sut i gyfathrebu gyda Tai Tarian yn Gymraeg wedi'i osod mewn lle amlwg ar ddesg y dderbynfa yn y brif swyddfa. | ***Camau nesaf:***<br>Byddwn yn parhau i fonitro'r weithred hon.<br>Cynllun gweithredu 2025/26 – gweithred M |

| 14. Cynnwys datganiad yn ein Datganiadau Ariannol blynyddol a gaiff eu cyhoeddi yn nodi lle gall aelodau'r cyhoedd gael copi o'n hadroddiad monitro CIG i'r Comisiynydd. | |
|---|---|
| ***Diweddariad o gynnydd***<br>• Mae ein Datganiadau Ariannol sy'n cael eu cyhoeddi ym mis Gorffennaf bob blwyddyn, yn cynnwys manylion bod ein hadroddiad monitro CIG ar gael ar ein gwefan. | ***Camau nesaf:***<br>Byddwn yn parhau i fonitro'r weithred hon.<br>Cynllun gweithredu 2025/26 – gweithred N. |

| 15. Adolygu CIG Tai Tarian pan gaiff canlyniad Safonau Iaith Gymraeg eu cyhoeddi ar gyfer Cymdeithasau Tai | |
|---|---|
| ***Diweddariad o gynnydd***<br>• Rydym ar hyn o bryd yn disgwyl am gyhoeddi'r Safonau Iaith Gymraeg.<br>• Mae gennym dîm Prosiect y Gymraeg sy'n trafod gyda rhanddeiliaid i ddeall eu barn ar y ddarpariaeth a deall sut y gallwn gyflwyno gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg yn llwyddiannus. | ***Camau nesaf:***<br>Byddwn yn parhau i fonitro'r weithred hon.<br>Cynllun gweithredu 2025/26 – gweithred O. |

| 16. Paratoi adroddiad blynyddol i'r Bwrdd a CYG ar CIG Tai Tarian | |
|---|---|
| ***Diweddariad o gynnydd***<br>• Adolygwyd ein hadroddiad monitro CIG blynyddol ar gyfer 2024/25 gan y Bwrdd ar 24 Ebrill 2025. | ***Camau nesaf:***<br>Byddwn yn parhau i fonitro'r weithred hon.<br>Cynllun gweithredu 2025/26 – gweithred P. |

| 17. Monitro sylwadau, canmoliaeth a chwynion mewn perthynas â'r CIG | |
|---|---|
| ***Diweddariad o gynnydd***<br>• Hyd yma, nid yw Tai Tarian wedi derbyn unrhyw sylwadau, canmoliaeth na chwynion mewn perthynas â'r CIG ers i ni gychwyn masnachu ym mis Mawrth 2011. | ***Camau nesaf:***<br>Byddwn yn parhau i fonitro'r weithred hon.<br>Cynllun gweithredu 2025/26 – gweithred Q. |

| 18. Parhau i rannu cortyn gwddf 'Siaradwr Cymraeg' i weithwyr newydd sy'n siarad Cymraeg | |
|---|---|
| ***Diweddariad o gynnydd***<br>• Mae proses ar waith i sicrhau bod cortyn 'Siaradwr Cymraeg' yn cael ei rannu gyda staff newydd wrth anwytho, sy'n datgan eu bod yn siaradwr Cymraeg. Mae hyn yn ei gwneud hi'n hawdd i'n cwsmeriaid adnabod siaradwyr Cymraeg. | ***Camau nesaf:***<br>Byddwn yn parhau i fonitro'r weithred hon.<br>Cynllun gweithredu 2025/26 – gweithred R. |

| 19. Bydd Tai Tarian yn cefnogi Cymraeg yn y Fwrdeistref | |
|---|---|
| ***Diweddariad o gynnydd***<br>• Ym mis Medi 2023 bu i ni ail gyflwyno cwrs dysgu Cymraeg wyneb yn wyneb ar gyfer dechreuwyr i staff a deiliaid contract.<br>• Cafodd cwrs iaith pellach ei gynnig yn 2024, yn anffodus ni chafwyd llawer o ddiddordeb a chafodd ei ganslo gan y darparwr hyfforddiant ar ôl ychydig o wythnosau.<br>• Byddwn yn gofyn am gyngor y Ganolfan Dysgu Cymraeg wrth symud ymlaen, i ddeall pa gyfleoedd dysgu eraill y gallwn eu darparu. | ***Camau nesaf:***<br>Rydym yn edrych ar opsiynau ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf drwy siarad gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg i edrych ar ddulliau gwahanol ar gyfer dysgu.<br>Cynllun Gweithredu 2025/26 - gweithred S. |

**Atodiad 1**

**Cynllun Gweithredu Cynllun Iaith Gymraeg 2025/ 26**

| Gweithred | Yn parhau neu’n Newydd | Gweithred | Swyddog Arweiniol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| A | Yn parhau | Monitro’r lefel o alw am y Gymraeg gan ein defnyddwyr gwasanaeth ac adlewyrchu hyn yn ein proses recriwtio os oes gofyn | Llywodraethu Corfforaethol a Rheolwr Cydymffurfio a Phartner Busnes EDI | Parhaus |
| B | Yn parhau | Monitro pa mor rhugl yw Cymraeg staff a gweithredu yn briodol, os oes angen, cynnal ymarferiad i hysbysu staff am bwysigrwydd darparu a diweddaru eu data iaith Gymraeg. | Partner Busnes EDI | Parhaus |
| C | Yn parhau | Cynnal ymarferiad i hysbysu staff am bwysigrwydd darparu a diweddaru eu data iaith Gymraeg | Swyddog Cyfathrebu Partner Busnes ED+I a Rheolwr Llywodraethu Corfforaethol a Chydymffurfio | Parhaus |
| D | Yn parhau | Cynnal a diweddaru'r cyfeiriadur mewnol o staff sy’n siaradwyr Cymraeg rhugl ac yn gallu ysgrifennu Cymraeg. | Swyddog AD | Parhaus |
| E | Yn parhau | Parhau i godi ymwybyddiaeth am y Cynllun Iaith Gymraeg ymhlith staff a chwsmeriaid drwy’r dull mwyaf priodol | Rheolwr Llywodraethu Corfforaethol a Chydymffurfio | Parhaus |
| F | Yn parhau | Parhau i gasglu a chofnodi dewisiadau iaith ar gyfer cyfathrebu fel rhan o gasglu data Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant | Partner Busnes EDI | Parhaus |
| G | Yn parhau | Dadansoddi data dewis iaith wrth gyfathrebu sydd wedi'i gasglu ac ystyried ei effaith ar ddarpariaeth gwasanaeth | Dadansoddwr Cynllunio Busnes a Pherfformiad | Parhaus |
| H | Yn parhau | Parhau i fonitro’r lefelau o alw am iaith Gymraeg gan ein deiliaid contract a phenderfynu ar sut i ymdrin â hyn er mwyn diwallu’r galw. | Partner Busnes EDI | Parhaus |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| I | Yn parhau | Monitro defnydd ac ansawdd y broses gyfieithu i Gymraeg. | Rheolwr Llywodraethu Corfforaethol a Chydymffurfio | Parhaus |
| J | Yn parhau | Diweddaru myfyrwyr iaith Gymraeg am gyfleoedd yn lleol i ymarfer yr hyn y maent yn ei ddysgu | Rheolwr Llywodraethu Corfforaethol a Chydymffurfio | Parhaus |
| K | Yn parhau | Parhau i gynnig hyfforddiant iaith Gymraeg i staff | Rheolwr Llywodraethu Corfforaethol a Chydymffurfio | Parhaus |
| L | Yn parhau | Gwerthuso darpariaeth hyfforddiant iaith Gymraeg presennol gydag aelodau ar ôl i'r cwrs presennol ddod i ben ac yna penderfynu sut i symud ymlaen | Rheolwr Llywodraethu Corfforaethol a Chydymffurfio | Parhaus |
| M | Yn parhau | Parhau i ddangos datganiadau iaith Gymraeg yn ein prif dderbynfa | Rheolwr Llywodraethu Corfforaethol a Chydymffurfio a Chyfathrebu | Parhaus |
| N | Yn parhau | Parhau i gynnwys datganiad yn ein Datganiadau Ariannol blynyddol cyhoeddedig, yn nodi lle gall aelodau'r cyhoedd gael copi o'n hadroddiad monitro Cynllun Iaith Gymraeg blynyddol i CyG. | Rheolwr Llywodraethu Corfforaethol a Chydymffurfio a Cyllid | 31/07/25 |
| O | Yn parhau | Adolygu CIG Tai Tarian pan gaiff canlyniad Safonau Iaith Gymraeg eu cyhoeddi ar gyfer Cymdeithasau Tai | Rheolwr Llywodraethu Corfforaethol a Chydymffurfio | Pan fyddant wedi eu cyhoeddi |
| P | Yn parhau | Paratoi adroddiad blynyddol i'r Bwrdd a CYG ar CIG Tai Tarian | Rheolwr Llywodraethu Corfforaethol a Chydymffurfio | 30/06/25 |
| Q | Yn parhau | Monitro sylwadau, canmoliaeth a chwynion mewn perthynas â'r CIG | Rheolwr Llywodraethu Corfforaethol a Chydymffurfio | Parhaus |
| R | Yn parhau | Parhau i rannu cortyn gwddf 'Siaradwr Cymraeg' i weithwyr newydd sy'n siarad Cymraeg | Swyddog AD a Thechnegydd Desg Gwasanaeth Technoleg ac Arloesedd | Parhaus |
| S | Yn parhau | Bydd Tai Tarian yn cefnogi Cymraeg yn y Fwrdeistref | Swyddog Cyfathrebu a Rheolwr Llywodraethu Corfforaethol a Chydymffurfio | Parhaus |